

DAVIES, HUGH TUDWAL (1847 - 1915), amaethwr a bardd

Enw: Hugh Tudwal Davies

Dyddiad geni: 1847

Dyddiad marw: 1915

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: amaethwr a bardd

Maes gweithgaredd: Natur ac Amaethyddiaeth; Barddoniaeth

Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd yn Mynachdy, Clynnog, Sir Gaernarfon; nai i **Robert Hughes**, Uwchlaw'r Ffynnon. Pan oedd tua 18 oed symudodd gyda'i deulu i fferm yr Orsedd Fawr, Llanybi; yn 1872 gwnaeth ei gartref yn Brynllaeth, Llŷn. Priododd ferch i John Hughes, capten llong, Gellidara. Enillodd fel bardd yn eisteddfodau Pwllheli 1875, Caernarfon 1880, a Chaernarfon 1894. Canodd lu o englynion a rhai cywyddau. Treuliodd ddiwedd ei oes yn Llwyn'rhudol, Abererch. Bu farw fis Ebrill 1915 yn Gellidara a chladdwyd ef ym mynwent Penrhos.

Awdur

Syr **William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Archifau LIGC: NLW MS 2126E

Archifau LIGC: NLW MS 13701D

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733208](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

[Trannu](#)

Arddull APA

x

Davies, W. Ll., (1953). DAVIES, HUGH TUDWAL (1847 - 1915), amaethwr a bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-TUD-1847>

[Cyswllt](#)

Preifatrwydd a Chwci

Hawlfraint

Y Prosiect

Cymorth

Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government